BBC
Bitesize

# CA3 Cymraeg – Ysgrifennu cofiant

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

Mae'r berfau trydydd person amser gorffennol y ferf wedi eu nodi isod.

Dyma ddyn a **osododd** ei stamp ar fyd cyfrifiaduron, ar fyd ffilm, ar fyd cerddoriaeth ac ar fyd y ffôn. Roedd yn un o'r rhai **gychwynnodd** gwmni Apple yn yr 1970au, mewn garej yn California. Ond yn 1985 **aeth** pethau'n ddrwg rhyngddo a bwrdd rheoli'r cwmni a **chafodd** ei ddiswyddo. Bu hyn yn garreg filltir yn ei hanes ac fe **elwodd** o'r profiad. **Cychwynnodd** gwmni arall a bu'n gweithio i Pixar Animations Studios. Pixar oedd yn gyfrifol am y ffilmiau llwyddiannus a phoblogaidd *Toy Story, Finding Nemo* a *The Incredibles*.

Fedrwch chi ddim peidio â'i edmygu. **Llwyddodd** i drawsnewid Apple a'i wneud yn un o'r cwmnïau mwyaf llwyddiannus yn y byd. **Llwyddodd** i lansio'r iPhone a'r iPad ac yntau'n dioddef o ganser y pancreas. Roedd dyfalbarhad yn perthyn i Steve Jobs. Roedd yn dal ati. Roedd yn fodlon ailddechrau os oedd pethau yn mynd o chwith.

Oedd, roedd Steve Jobs yn dipyn o ddyn. Roedd yn athrylith.

(*Byd Bach* – Esyllt Maelor)


© BBC